



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adroddiad Ansawdd

## Arolwg Defnydd Iaith

### 1. Cyflwyniad

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn holiadur hunan-lenwi a ddsbarthwyd i bob siaradwr Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) a nodwyd mewn aelwydydd lle'r oedd rhywun wedi cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Diben yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y rheini sy'n siarad Cymraeg, pa mor rhugl ydynt, â phwy maent yn siarad Cymraeg, ym mha sefyllfaoedd a pha mor aml y maent yn defnyddio'r iaith.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg ar raddfa fawr ymhlith pobl ar draws Cymru, a gynhelir wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr. Bob blwyddyn, caiff yr arolwg ei lenwi gan 14,500 o bobl 16 oed a hŷn (oddeutu 660 ym mhob awdurdod lleol) a ddewisir ar hap i sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol.

Mae'r adroddiad ansawdd hwn yn amlinellu sut mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn bodloni diffiniad System Ystadegol Ewrop o ansawdd (Adran 2), ac mae'n darparu crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r allbwn (Adran 3). Lluniwyd [adroddiad ansawdd](#) ar wahân ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol (Saesneg yn unig).

### 2. Crynodeb o ansawdd

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn bodloni'r chwe dimensiwn ansawdd a ddisgrifir yn System Ystadegol Ewrop: perthnasedd; cywirdeb; amseroldeb a phrydlondeb; hygyrchedd ac eglurdeb; cyfatebiaeth; a chydlyniaeth.

#### 2.1 Perthnasedd

*I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn diwallu anghenion y defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.*

Beth mae'n ei fesur?	<p>Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch gallu ieithyddol siaradwyr Cymraeg a'r defnydd a wnânt o'r iaith.</p> <p>Arolwg yw hwn ar gyfer siaradwyr Cymraeg a nodwyd mewn aelwydydd lle gwnaeth rywun gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol, ac felly mae gwybodaeth ddemograffig ar gael o'r Arolwg Cenedlaethol am y rheini sy'n ymateb i'r Arolwg Defnydd Iaith sy'n golygu bod modd cynnal dadansoddiad manwl o'r canlyniadau.</p> <p>Mae'r holiaduron ar gyfer oedolion a phobl ifanc ychydig yn wahanol i'w gilydd ac mae'r ddau ar gael ar <a href="#">wefan</a> yr Arolwg Defnydd Iaith. Ceir ar y wefan hon hefyd gopi o'r llythyr atgoffa a anfonwyd at yr aelwydydd nad oedd wedi ymateb.</p>
----------------------	--

Dull	Cafodd pob siaradwr Cymraeg yn yr aelwydydd hynny a wnaeth gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol holiadur i'w lenwi eu hunain a'i ddychwelyd drwy'r post. Roedd yr holiadur yn ddwyieithog a rhoddwyd cyfle i bob ymatebydd ei lenwi yn ei ddewis iaith.
Amllder	Yn barhaus dros 2 flynedd o fis Ebrill 2013 tan fis Mawrth 2015.
Maint y sampl	Sampl o 5,700 o oedolion a 1,500 o blant dros gyfnod y ddwy flynedd. Nodir union faint y samplau yn yr <a href="#">adroddiad technegol</a> .
Cyfnodau sydd ar gael	Mae'r brif flwyddyn adrodd ar gyfer yr arolwg yn seiliedig ar holiaduron a lenwyd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, a rhwng Mawrth 2014 ac Ebrill 2015. Gellir cynhyrchu ffigurau ar gyfer awdurdodau lleol drwy gyfuno'r canlyniadau o'r ddwy flynedd o waith maes.
Fframwaith y sampl	Defnyddir y siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru fel y sampl ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith.  Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, caiff y cyfeiriadau eu dewis ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol ar gyfer defnyddwyr bach, sy'n rhestr gyfoes o holl cyfeiriadau'r DU.
Dyluniad y sampl	Caiff y sampl ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol ei haenu'n anghymesur yn ôl awdurdod lleol er mwyn sicrhau sampl effeithiol weddol gyfartal o ymatebwyr ym mhob awdurdod lleol bob blwyddyn. Mae'r sampl ar gyfer pob blwyddyn adrodd yn cael ei dynnu mewn un cam a'i ddyrannu'n gyfartal ar draws pob chwarter, cyn cael ei ddyrannu i bob mis o fewn pob chwarter. Mae'r dull samplu hwn yn sicrhau bod unrhyw bedwar chwarter dilynol o ddata yn cael ei ddad-glystyru'n ffurfiol.  Yn achos cyfeiriadau sy'n cynnwys mwy nag un aelwyd, caiff un aelwyd ei dewis ar hap. Ym mhob aelwyd yn y sampl, dewisir ymatebydd ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol ar hap o blith yr holl oedolion (16 oed neu'n hŷn) ar yr aelwyd sy'n ystyried cyfeiriad y sampl fel eu prif breswylfa, waeth pa mor hir y maent wedi bod yn byw yno. Ar ôl i'r ymatebydd dan sylw gwblhau'r Arolwg Cenedlaethol, gadawyd holiaduron yr Arolwg Defnydd Iaith i bob un o'r siaradwyr Cymraeg ar yr aelwyd honno.
Pwysoliad	Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli er mwyn cymryd i ystyriaeth y tebygolrwydd o ddethol anghyfartal a hefyd diffyg ymateb gwahaniaethol, h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oed a rhyw'r sampl a ymatebodd yn cydweddu â gweddill y boblogaeth yng Nghymru.  Caiff yr Arolwg Defnydd Iaith ei bwysoli hefyd er mwyn sicrhau bod oedran, rhyw, awdurdod lleol a gallu i siarad Cymraeg y sampl a ymatebodd yn cydweddu â phoblogaeth y siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff y canlyniadau eu pwysoli yn yr <a href="#">adroddiad technegol</a> .
Priodoliad	Dim priodoliad.
Allanolynnau	Ni chaiff allanolynnau eu hidlo.

Ceir rhagor o fanylion am ddyluniad a methodoleg yr arolwg yn yr Adroddiad Technegol ar gyfer yr [Arolwg Cenedlaethol](#) a'r [Arolwg Defnydd Iaith](#).

## Prif ddiben

Prif bwrpas yr Arolwg Defnydd Iaith yw casglu gwybodaeth am sut mae'r rheini sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith. Mae'n holi am eu gallu, lle y gwnaethant ddysgu i siarad Cymraeg, pa mor aml y maent yn defnyddio'r iaith ac ym mha sefyllfaoedd. Bydd yn darparu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg ac yn fodd i gymharu data ag Arolygon Defnydd Iaith blaenorol a gynhaliwyd yn 2004, 2005 a 2006.

Caiff yr Arolwg Defnydd Iaith ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'n barhad o ymchwil a wnaed ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 dros gyfres o dri arolwg. Trefnwyd yr arolygon hyn i ategu'r arolwg Byw yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng 2004 a 2006 gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Defnyddwyr a'r defnydd a wneir o'r arolwg

Prif ddefnyddwyr y canlyniadau yw Comisiynydd y Gymraeg, Gweinidogion Llywodraeth Cymru a thimau polisi. Mae ystod eang o ddefnyddwyr eraill hefyd, gan gynnwys: sefydliadau eraill llywodraeth y DU a llywodraeth leol; sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; academyddion; aelodau'r cyhoedd; a'r sector gwirfoddol, yn enwedig yng Nghymru. Bydd y setiau data'n cael eu rhoi yn [Archif Data'r Deyrnas Unedig](#) er mwyn sicrhau bod y canlyniadau ar gael yn eang at ddibenion ymchwil.

Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Llywodraeth Cymru, *iaith fyw: iaith byw*, yn amlinellu dyhead Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i'w helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn, ac yn nodi meysydd lle mae angen cryfhau polisi a'i ddatblygu ymhellach.

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Comisiynydd 2013-15 yn nodi pum amcan strategol. Un ohonynt yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisi. Bydd canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu tystiolaeth bwysig i'r Comisiynydd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn aelwydydd yng Nghymru (ac mewn sefyllfaoedd eraill) gan sicrhau bod gan lunwyr polisi yr wybodaeth ystadegol diweddaraf a dealltwriaeth o sefyllfa bresennol yr iaith.

## Cryfderau a chyfyngiadau

Dyma rai o gryfderau'r Arolwg Defnydd Iaith:

- Mae maint y sampl yn fawr. Mae hyn yn fodd i ddadansoddi'r data yn ôl is-grwpiau o'r boblogaeth ac ardaloedd awdurdodau lleol.
- Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn darparu sampl a ddewiswyd ar hap gyda chyfradd ymateb uchel o tua 70%. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y canlyniadau mor gynrychioliadol â phosibl o'r bobl yng Nghymru, gan gynnwys grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd fel pobl ifanc sy'n gweithio. Mae'r arolwg wedi'i bwysoli i addasu ar gyfer diffyg ymateb, sydd hefyd yn helpu i sicrhau ei fod mor gynrychioliadol â phosibl.
- Cafodd yr Arolwg Defnydd Iaith ei roi yn bersonol i'r ymatebwyr. Gwnaeth hyn helpu i sicrhau cyfradd dderbyn uchel o 82% ar gyfer yr holiaduron, a chyfradd ddychwelyd o 53% (41% ar gyfer plant a phobl ifanc) ar gyfer yr arolwg hunanlenwi (cyfradd ymateb cyffredinol o 48% ar gyfer oedolion a 33% ar gyfer plant; mae hyn yn gymharol uchel ar gyfer arolwg hunanlenwi).

- Mae'r cyfeiliornadau samplu yn fach o'u cymharu â dyluniadau rhai arolygon cymdeithasol, oherwydd bod gan yr Arolwg Cenedlaethol sampl o gyfeiriadau a ddewiswyd mewn un cam.
- Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys ystod o gwestiynau demograffig sy'n golygu bod modd dadansoddi'r canlyniadau yn ôl oedran, rhyw etc.
- Lle'n bosibl, roedd geiriad y rhan fwyaf o'r cwestiynau yr un peth ag yr oedd yn arolygon 2004-2006. Golyga hyn fod y cwestiynau wedi'u profi, ac felly bod modd cymharu canlyniadau dros amser.
- Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol a fyddent yn fodlon i rywun gysylltu â nhw eto ar gyfer ymchwil pellach ac i'w data gael eu cysylltu i gofnodion gweinyddol eraill a gedwir amdanynt. Mae hyn yn ein galluogi i wneud defnydd pellach o'r wybodaeth a gasglwn.

Dyma rai o'r cyfyngiadau:

- Er bod y gyfradd ymateb yn gymharol uchel, mae cyfran sylweddol o'r unigolion a samplwyd heb gymryd rhan. Mae hyn yn debygol o effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchir.
- Nid yw'r arolwg yn cynnwys pobl sy'n byw mewn safleoedd sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, cartrefi preswyl i droseddwr ifanc, hostelau, a neuaddau myfyrwyr).
- Gofalwyd bod y cwestiynau mor syml â phosibl, ond bydd dal i fod achosion lle nad yw'r ymatebwyr yn ymateb yn gywir e.e. oherwydd eu bod heb ddeall y cwestiwn yn iawn, oherwydd y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth hunanasesu sgiliau ieithyddol neu oherwydd nad ydynt, am ryw reswm, eisiau rhoi ateb cywir. Eto, bydd hyn yn effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchir.
- Gan ei fod yn arolwg hunanlenwi, bydd yna achosion lle mae ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau heb ddarllen y cyfarwyddiadau. Efallai y byddant wedi rhoi atebion sy'n gwrth-ddweud ei gilydd ac wedi hepgor cwestiynau.
- Nid oes modd cynnal dadansoddiad cadarn ar gyfer ardaloedd bach (h.y. ardaloedd o fewn awdurdodau lleol) a grwpiau heb gyfuno dwy flynedd o ddata.

Mae sawl un o'r cryfderau a'r cyfyngiadau y soniwyd amdanynt uchod yn gysylltiedig â chywirdeb y canlyniadau. Trafodir cywirdeb yn fwy manwl yn yr adran nesaf.

## 2.2 Cywirdeb

*Pa mor agos yw'r canlyniad a amcangyfrifir a'r gwerth gwirioneddol (anhysbys).*

Y prif ffactorau sy'n effeithio ar gywirdeb yw cyfeiliornadau megis cyfeiliornad samplu a chyfeiliornad nad yw'n ymwneud â samplu.

### Cyfeiliornadau samplu

Mae cyfeiliornadau samplu yn digwydd am fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar hapsampl o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yn hytrach na'r boblogaeth gyfan o siaradwyr Cymraeg. Mae'r canlyniadau a geir ar gyfer unrhyw hapsampl unigol yn debygol o amrywio ar hap o'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth Gymraeg gyfan wedi'i chynnwys yn yr arolwg (h.y. cyfrifiad), a chyfeirir at yr amrywiad hwn fel cyfeiliornad samplu. Yn gyffredinol, lleiaf y sampl mwyaf y cyfeiliornad.

Ar gyfer hapsampl, gellir amcangyfrif cyfeiliornad samplu'n ystadegol ar sail y data a gasglwyd, gan ddefnyddio'r cyfeiliornad safonol ar gyfer pob newidyn. Mae dyluniad yr arolwg yn effeithio ar gyfeiliornadau safonol; a gellir defnyddio cyfeiliornadau safonol i

gyfrif cyfyngau hyder a chyfernodau amrywiad er mwyn rhoi syniad mwy greddfoll o faint y cyfeiliornad sampl ar gyfer newidyn penodol. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr is-adrannau canlynol.

#### *Effaith dyluniad yr arolwg ar gyfeiliornadau safonol*

Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i haenu ar lefel awdurdod lleol, gyda thebygolrwydd dethol gwahanol ar gyfer pobl sy'n byw mewn awdurdodau lleol gwahanol (e.e. tebygolrwydd llai ar gyfer rhywun sy'n byw yn ardal awdurdod lleol Caerdydd na rhywun sy'n byw ym Merthyr Tudful, o ystyried maint cymharol fwy Caerdydd). Un o effeithiau defnyddio'r dyluniad cymhleth hwn yw bod y cyfeiliornadau safonol ar gyfer amcangyfrifon yr arolwg yn uwch yn gyffredinol na'r cyfeiliornadau safonol a fyddai'n deillio o hapsampl syml o'r un maint.

Gelwir y gymhareb rhwng *cyfeiliornad safonol* sampl cymhleth a hapsampl syml o'r un maint yn ffactor dyluniad, neu "deft" (*design factor*) yn Saesneg. Os yw cyfeiliornad safonol amcangyfrif mewn arolwg cymhleth yn cael ei gyfrif fel petai wedi deillio o arolwg o hapsampl syml, mae lluosio'r cyfeiliornad safonol hwnnw gyda'r ffactor dyluniad yn rhoi cyfeiliornad sampl gwirioneddol yr amcangyfrif, o ystyried y dyluniad cymhleth.

Gelwir y gymhareb rhwng *amrywiant sampl* sampl cymhleth a hapsampl syml o'r un maint yn effaith dyluniad, neu "deff" (*design effect*) yn Saesneg (sy'n gyfwerth â'r ffactor dyluniad wedi ei sgwario). Mae rhannu maint gwirioneddol y sampl ar gyfer arolwg cymhleth yn erbyn y ffactor dyluniad yn rhoi'r "maint sampl effeithiol". Dyma faint hapsampl syml a fyddai wedi rhoi'r un lefel o gywirdeb â'r arolwg cymhleth.

Mae'r cyfeiliornadau safonol a addaswyd ar gyfer dyluniad yr arolwg a'r ffactorau dyluniad ar gyfer detholiad o newidynnau allweddol yn yr Arolwg Cenedlaethol wedi'u hamlinellu yn yr [adroddiadau technegol](#) ar gyfer pob blwyddyn.

#### *Cyfyngau hyder*

Gellir defnyddio cyfeiliornadau safonol i gyfrif cyfyngau hyder ar gyfer amcangyfrifon yr arolwg. Mae'r cyfyngau hyder ar gyfer pob amcangyfrif yn pennu'r ystod lle mae'r gwerth 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth yn debygol o fod (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe bai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Y cyfwng hyder mwyaf cyffredin yw cyfwng o 95 y cant. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfwng hyder o 95% ar gyfer pob sampl mewn 95 y cant o samplau arolwg yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan. Po fwyaf yw'r cyfwng hyder, lleiaf cywir yw'r amcangyfrif.

Cyfrifiwyd cyfyngau hyder o 95 y cant ar gyfer ystod o dablau yn yr Arolwg Defnydd Iaith a gyhoeddir ar wefan [StatsCymru](#). Addaswyd y cyfyngau hyder hyn i gymryd i ystyriaeth ddyluniad yr arolwg, ac maent yn fwy nag y byddent pe bai'r arolwg wedi bod yn seiliedig ar hapsampl syml. Cânt eu cyfrif fel gwerth cymedrig yr amcangyfrif plws neu finws oddeutu  $1.96 \times$  cyfeiliornad safonol yr amcangyfrif.<sup>1</sup>

Gellir defnyddio cyfyngau hyder hefyd i helpu i weld a oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau grŵp. Yn fras, wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn wahanol iawn yn ystadegol - nid yw'r dull hwn mor drylwyr â phrawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, yn cael ei ddefnyddio'n eang, ac yn eithaf cadarn.

Dylid nodi bod gwirio i weld a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn llai tebygol na phrawf ystadegol ffurfiol o arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng

---

<sup>1</sup>Mae'r gwerth o 1.96 yn amrywio ychydig yn ôl maint y sampl ar gyfer pob amcangyfrif penodol.

grwpiau. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug", sef casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth pan mae yna wahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau positif ffug", sef casgliadau anghywir **bod** yna wahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal nifer o gymariaethau yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniadau positif ffug. Felly, pan gaiff nifer o gymariaethau eu gwneud, mae natur ceidwadol y prawf o fantais am ei fod yn lleihau (ond ddim yn dileu) y tebygolrwydd hwn.

### Cyfernodau amrywiad

I sicrhau bod yr amcangyfrifon a nodir yn gadarn, cyfrifir cyfernodau amrywiad ar gyfer pob amcangyfrif. Caiff y rhain eu nodi yn nhablau canlyniadau'r arolwg a gyhoeddir ar wefan [StatsCymru](#). Cyfrifir cyfernodau amrywiad drwy luosi'r cyfeiliornad safonol gyda 100 a'i rannu gyda'r gwerth cymedrig, ac mae'n dynodi pa mor gywir yw amcangyfrif. Mae'r tabl isod yn dangos sut rydym yn rhoi cod lliw i'n canlyniadau yn unol â'r cyfernodau amrywiad a sut rydym yn eu dehongli.

	Amcangyfrif yn gywir	$0 \leq CV < 5$
	Amcangyfrif yn eithaf cywir	$5 \leq CV < 10$
	Amcangyfrif yn dderbyniol	$10 \leq CV < 20$
	Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy	$CV \geq 20$
	-	Gwerth wedi'i atal oherwydd maint cell bach (llai na 30 o ymatebion).

Os oes gan amcangyfrif gyfernod amrywiad sy'n fwy na 20, nid yw'n cael ei ystyried yn ddibynadwy at ddibenion ymarferol.

Mewn tablau o ganlyniadau, caiff gwerthoedd sydd â maint cell o lai na 30 (h.y. lle gwnaeth llai na 30 o bobl ddewis yr opsiwn/opsiynau ateb perthnasol) eu hatal a'u nodi fel "-".

### Cyfeiliornadau nad ydynt yn ymwneud â samplu

Mae cyfeiliornadau nad ydynt yn ymwneud â samplu yn cwmpasu pob gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon yr arolwg a gwir werthoedd y boblogaeth, ac eithrio'r rheini sy'n codi oherwydd cyfeiliornadau samplu. Yn wahanol i gyfeiliornad samplu, ceir cyfeiliornad nad yw'n ymwneud â samplu mewn cyfrifiadau yn ogystal ag arolygon sampl. Mae cyfeiliornadau o'r fath yn cynnwys cyfeiliornadau'n ymwneud â chwmpas, diffyg ymateb, mesur a phrosesu.

Nid yw'n bosibl dileu'n gyfangwbl gyfeiliornad nad yw'n ymwneud â samplu, ac nid yw'n bosibl cynhyrchu amcangyfrifon ystadegol o faint y cyfeiliornad. Gwnaed cryn ymdrech i leihau cyfeiliornadau o'r fath yn yr Arolwg Cenedlaethol a'r Arolwg Defnydd Iaith. Amlinellir rhai o'r camau allweddol a gymerwyd yn yr is-adrannau canlynol.

### *Cyfeiliornad mesur: datblygu cwestiynau*

I leihau cyfeiliornadau mesur, defnyddir cwestiynau wedi'u cysoni neu gwestiynau sefydledig a brofwyd yn gynharach lle'n bosibl.

### *Diffyg ymateb*

Mae diffyg ymateb yn fath allweddol o gyfeiliornad nad yw'n ymwneud â samplu. Felly, mae cyfraddau ymateb yn rhan bwysig o ansawdd arolwg ac yn cael eu monitro'n agos. Y gyfradd ymateb darged chwarterol a blynyddol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol ar lefel genedlaethol yw 70%, gyda chyfradd gofynnol o 65% ar lefel yr awdurdod lleol ym mhob blwyddyn adrodd. Y gyfradd ymateb a gafwyd i'r Arolwg Cenedlaethol oedd 70% yn

2013-14 a 64% yn 2014-15. Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfraddau ymateb a gafwyd yn yr [adroddiadau technegol](#).

Cafodd yr Arolwg Defnydd Iaith ei roi yn bersonol i'r ymatebwyr, a wnaeth helpu i sicrhau cyfradd dderbyn uchel o 82% ar gyfer yr holiaduron. Anfonwyd pecyn atgoffa drwy'r post at y rheini nad oedd wedi dychwelyd holiadur wedi'i gwblhau ymhen pythefnos. Roedd y pecyn yn cynnwys copi arall o'r holiadur a llythyr yn egluro'r arolwg ac yn eu gwahodd eto i gymryd rhan. Os nad oeddent yn dychwelyd yr holiadur ar ôl cael pecyn atgoffa drwy'r post, roeddent yn cael galwad ffôn i'w hatgoffa. Gwnaeth hyn sicrhau cyfradd ddychwelyd o 53% (41% ar gyfer plant) (ac felly cyfradd ymateb o 48% ar gyfer oedolion, a 33% ar gyfer plant).

Dylid cofio mai holiadur hunanlenwi yw hwn ac felly gallai fod achosion lle mae sgiliau llythrennedd yr ymatebydd yn effeithio ar ei allu a'i dueddiad i ymateb. Fodd bynnag, hyfforddwyd y cyfwelwyr i helpu'r ymatebwyr i lenwi'r arolwg, os oeddent eisiau neu'n gofyn am gymorth.

Caiff canlyniadau'r arolwg eu pwysoli i ystyried diffyg ymateb gwahaniaethol ar draws is-grwpiau o'r boblogaeth, h.y. i sicrhau bod dosbarthiad y sampl a ymatebodd o ran oedran a rhyw yn cyfateb i boblogaeth y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Diben y cam hwn yw lleihau'r cyfeiliornadau nad ydynt yn ymwneud â samplu oherwydd diffyg ymateb gwahaniaethol.

#### *Atebion ar goll*

Mae atebion coll yn digwydd am sawl rheswm. Gallai ddigwydd oherwydd bod ymatebydd yn gwrthod neu'n methu ateb cwestiwn penodol, neu os nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd. Mae hyn yn broblem benodol mewn arolygon hunanlenwi. Caiff atebion coll eu hepgor o dablau a dadansoddiadau.

#### *Cyfeiliornad mesur: sicrhau ansawdd y cyfweliadau*

Ffactor arall a allai achosi bias yw bod cyfwelwyr yn dylanwadu'n systematig ar yr ymatebion mewn rhyw ffordd. Darperir hyfforddiant dwys i gyfwelwyr er mwyn lleihau'r effaith hwn, ond mae'n parhau'n debygol y bydd yr ymatebion a geir yn yr arolwg wyneb yn wyneb cychwynnol yn dal i gael eu dylanwadu gan effeithiau megis bias dymunoldeb cymdeithasol (e.e. efallai y bydd ymatebydd yn gor-ddweud ei allu i siarad Cymraeg gan fod ei ymateb wedi'i ddylanwadu gan yr hyn y mae'n ei ystyried yn dderbyniol yn gymdeithasol). Mae'r cyfwelwyr yn cael eu goruchwylio'n agos hefyd - caiff 12% o'r cyfweliadau'n eu dilysu drwy 'ôl-wirio'. Unwaith y bydd yr ymatebydd wedi derbyn yr Arolwg Defnydd Iaith, mae bias y cyfwelwyr yn llai tebygol o gael effaith fawr ar y data gan fod y data'n cael eu casglu drwy holiadur hunanlenwi.

#### *Sganio a golygu data*

Caiff yr holiaduron hunanlenwi eu hanfon i ganolfan weithrediadau'r contractiwr. Ar ôl eu sganio, caiff yr holiaduron hunanlenwi, y data a'r delweddau electronig eu storio ar yriant cyfrifiadurol a'i gysylltu â data'r Arolwg Cenedlaethol drwy rifau cyfresol (ar lefel aelwyd ac unigol).

Gan nad yw holiaduron hunanlenwi yn cael eu monitro, roedd angen mynd ati i olygu'r data ar yr holiaduron a ddychwelwyd er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodwyd yn gyson ac yn gywir. Gwnaed gwaith golygu i ymdrin ag achosion lle'r oedd yn ymddangos bod yr holiadur wedi'i lenwi'n anghywir e.e. lle na ddilynwyd y llwybr cywir, roedd yr ymatebwyr wedi codio mwy nag un ateb lle'r oedd angen un yn unig, neu roedd atebion anghydnaws wedi'u rhoi.

### *Cyfeiliornad prosesu: dilysu data*

Darperir prif allbynnau'r arolwg mewn dwy set data SPSS, un yn cynnwys data o holiadur yr oedolion ac un arall yn cynnwys data o holiadur y plant. Roedd y setiau data'n cynnwys newidynnau pwysoli, a eglurir yn fanylach yn yr adroddiad technegol. Cafodd y setiau eu gwirio gan aelod o dîm prosesu data contractiwr yr arolwg ac wedyn gan aelodau o dîm prosiect y contractiwr. Yn dilyn hyn, caiff cynnwys a fformat y setiau data eu gwirio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru cyn eu cymeradwyo.

### **2.3 Amseroldeb a phrydlondeb**

*Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddwyd y data mewn gwirionedd a'r dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.*

Y brif flwyddyn adrodd ar gyfer yr arolwg yw mis Ebrill i fis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Caiff canlyniadau yr Arolwg Defnydd Iaith eu cyhoeddi o fewn 9 mis ar ôl diwedd cyfnod y gwaith maes.

Caiff dyddiadau cyhoeddi holl allbynnau'r arolwg eu nodi ymlaen llaw yng nghalendr [l'w cyhoeddi cyn hir](#) Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Os bydd angen newid yr amserlen a gyhoeddwyd ymlaen llaw, dilynir proses [Diwygiadau, Gwallau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru, a darperir esboniad llawn o'r rhesymau dros wneud y newid.

### **2.4 Hygyrchedd ac eglurdeb**

*Mae hygyrchedd yn cyfeirio at ba mor hawdd ydyw i'r defnyddwyr gael gafael ar y data, a hefyd ym mha fformat(au) y mae'r data ar gael ynddynt ac a oes gwybodaeth ategol ar gael. Mae eglurdeb yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metadata, y darluniau a'r cyngor ategol.*

#### Cyhoeddiadau

Bydd yr holl adroddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w lawrlwytho o dudalennau gwe [Llywodraeth Cymru](#) a [Chomisiynydd y Gymraeg](#). Gan fod yr arolwg hwn yn cael ei ariannu ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, efallai y bydd adroddiadau eraill ar yr arolwg yn cael eu cyhoeddi ar wahân ar wefannau'r ddau sefydliad.

Caiff ystadegau o'r Arolwg Cenedlaethol eu nodi ar yr amserlen ymlaen llaw, a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru am 9.30am ar y diwrnod cyhoeddi. Gellir lawrlwytho pob datganiad am ddim. Mae ffrwd RSS yn hysbysu'r defnyddwyr cofrestredig pan fydd y data wedi'i gyhoeddi. Yn ogystal, caiff y datganiadau eu cyhoeddi ar yr un pryd ar yr Hwb Ystadegau Gwladol, ac ar [StatsUserNet](#). Caiff yr allbynnau eu cyhoeddi a'u rhannu drwy gyfrifon Trydar Llywodraeth Cymru ac Ystadegau Cymru.

Gellir lawrlwytho canlyniadau allweddol fel taenlenni oddi ar wefan [StatsCymru](#).

Gellir gael rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r arolwg e.e. os ydych am weld dadansoddiad gwahanol o'r canlyniadau, drwy e-bostio Llywodraeth Cymru ([dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk](mailto:dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk)) neu Gomisiynydd y Gymraeg ([post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)) neu drwy ffonio Llywodraeth Cymru (029 2037 0373) neu Gomisiynydd y Gymraeg (0845 6033221).



### *Rheolaeth ar ddatgelu data*

Mae'r allbynnau wedi'u dylunio i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o'r canlyniadau a gyhoeddir. Rydym yn cadw at y gofynion o ran cyfrinachedd a mynediad at ddata a nodir yn Egwyddor 5: Cyfrinachedd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol.

### *Sicrhau ansawdd*

Rhai wythnosau cyn cyhoeddi, caiff fersiwn ddrafft o bob datganiad ei rhannu o dan amodau llym gyda chydweithwyr perthnasol sy'n ymwneud â gwaith dadansoddi yn Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn gywir ac yn gynhwysfawr.

### *Gofynion ieithyddol*

Caiff ein holl gyhoeddiadau ac allbynnau'n ymwneud â'r Arolwg Defnydd Iaith eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ac maent yn cyd-fynd â pholisi hygyrchedd Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn ceisio defnyddio Saesneg Clir / Cymraeg Clir.

### Archif Data'r DU

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (lle mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i thynnu ohoni er mwyn sicrhau cyfrinachedd) ynghyd â dogfennau ategol eu rhoi yn Archif Data'r DU ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob blwyddyn. Gall defnyddwyr cofrestredig ddefnyddio'r setiau data hyn ar gyfer prosiectau ymchwil penodol. Gellir mynd i mewn i Archif Data'r DU drwy [wefan y Gwasanaeth Data Economaidd a Chymdeithasol](#). Gellir lawrlwytho'r setiau data mewn sawl fformat, gan gynnwys fformatau SPSS a CSV.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd ymchwilwyr yn dymuno dadansoddi data mwy manwl na'r hyn sydd ar gael drwy'r Archif Data. Gellir gwneud cais i dîm yr Arolwg Cenedlaethol am ddata o'r fath (gweler y manylion cyswllt isod). Ystyrir ceisiadau fesul achos, ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau cyfrinachedd.

### Dulliau a diffiniadau

Mae adroddiad technegol yr Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys disgrifiad cyffredinol o'r modd y cynhaliwyd yr arolwg. Mae'n darparu gwybodaeth am bynciau fel samplu, gweithdrefnau gwaith maes a phwysoli. Mae pob cyhoeddiad hefyd yn cynnwys geirfa gyda disgrifiadau o'r termau mwy cyffredinol a ddefnyddir. Ceir copïau o'r holiaduron [yma](#).

## **2.5 Cyfatebiaeth a chydlyniaeth**

*I ba raddau y gellir cymharu data dros amser a maes.*

*I ba raddau y mae data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.*

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 yn barhad o waith ymchwil a wnaed yn gynharach rhwng 2004 a 2006. Roedd yr arolwg wedi'i gynllunio i'w gynnal yn y ffordd debycaf bosibl i'r arolygon a gynhaliwyd yn 2004, 2005 a 2006, er mwyn gallu cymharu'r arolygon.

Yr arolwg Byw yng Nghymru a ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer arolygon 2004-2006 (hynny yw, y bobl a bennwyd yn ystod yr Arolwg Byw yng Nghymru fel siaradwyr Cymraeg). Y person a oedd yn cynrychioli'r aelwyd (lle'n bosibl) a gwblhaodd yr arolwg Byw yng Nghymru. Diffiniwyd y person hwn fel y person a oedd yn 'fwyaf cyfrifol am yr aelwyd', y person oedd yn ennill y cyflog mwyaf neu'r person hynaf. Cynhaliwyd yr arolwg o fis Mawrth i fis Gorffennaf a defnyddiwyd sampl o 7,500 o bobl. Dewiswyd un oedolyn

yn yr aelwyd ar hap i gwblhau Arolwg Cenedlaethol Cymru, a hynny'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan greu sampl o 14,500. Felly, roedd rhai gwahaniaethau yn y modd y cafodd yr arolwg ei weinyddu.

Yn ogystal, roedd cyfran uwch o bobl wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15 nac yn arolwg Byw yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd cyfran llai o'r siaradwyr Cymraeg hyn wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau arolygon 2013-15 a 2004-06.

Cyfrifwyd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhugl drwy luosi'r canrannau a gofnodwyd yn rhugl yn yr Arolwg Defnydd laith â chanran y siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd y dull hwn i sicrhau cysondeb â'r dadansoddiad a wnaed ar gyfer arolygon 2004-06.

Cyflwynwyd rhai cwestiynau newydd yn 2013-14 a gwnaed mân newidiadau i rai o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd gynt yn arolwg 2004-06. Nodir yn glir yn yr allbynnau lle mae modd cymharu.

Gellir cymharu canlyniadau'r arolwg ar gyfer is-grwpiau gwahanol (e.e. oed, rhyw, rhuglder, daearyddiaeth, ffactorau demograffaid-gymdeithasol). Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau ar gyfer is-grwpiau fel awdurdodau lleol neu blant, gan nad yw'r gwahaniaethau bob amser yn fawr oherwydd bod y samplau'n llai o faint.

### **Adborth neu ragor o wybodaeth**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan [Llywodraeth Cymru](#) neu [Gomisiynydd y Gymraeg](#). Rydym yn croesawu sylwadau gan ddefnyddwyr ein cyhoeddiadau ar y cynnwys a'r dull cyflwyno etc.

Martin Parry  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru  
Adolygwyd ddiwethaf: Tachwedd 2015